Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Hwlffordd, 8 Mawrth 2016 (11am – 3pm)

Wales Association of SACREs meeting, Haverfordwest, 8 March 2016 (11am – 3pm)

Yn bresennol/ *Attendance*

Ynys Môn / *Anglesey*	**Sir Ddinbych / *Denbighshire***	**Powys**
Bethan James		
Rheinallt Thomas	**Sir y Fflint / *Flintshire***	**Rhondda Cynon Taf**
		Gill Vaisey
Blaenau Gwent	**Gwynedd**	
Gill Vaisey	Bethan James	**Abertawe / *Swansea***
		Vicky Thomas
Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend*	**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***	Rachel Bendall
Vicky Thomas	Vicky Thomas	Alison Lewis
Edward Evans	Ernie Galsworthy	
		Torfaen /Torfaen
Caerffili/ *Caerphilly*	**Sir Fynwy / *Monmouthshire***	Vicky Thomas
Vicky Thomas	Gill Vaisey	
		Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan*
Caerdydd / *Cardiff*	**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***	Gill Vaisey
Gill Vaisey	Jen Malcolm	
Gillian James		**Wrecsam / *Wrexham***
Kate Church	**Casnewydd / *Newport***	Libby Jones
	Huw Stephens	
Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire*	Vicky Thomas	**Sylwedyddion / *Observers***
Mary Parry		Janet Ingram- St David's Centre (Speaker)
Meinir Wynne Loader	**Sir Benfro / *Pembrokeshire***	Siân Brooks- UWTSD (Speaker)
Helen Gibbon	Mary Parry	Mrs Y Galsworthy
Gwyneth Thomas	Huw George	
	Emyr Phillips	
Ceredigion		
Lyndon Lloyd		
Conwy		

DRAFT

Cofnodion/ *Minutes*

1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome* Dechreuodd Edward Evans y cyfarfod drwy egluro y byddai ef yn Cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Phil Lord, Cadeirydd CCYSAGau Cymru a Tania ap Sion, Cadeirydd CCYSAGauC newydd ymddeol. Croesawodd y Cyng. Huw George, Cadeirydd CYSAG Sir Benfro aelodau CCYSAGauC i Sir Benfro. Rhannodd glip fideo a oedd yn dangos golygfeydd o Sir Benfro o ddrôn, a grëwyd yn arbennig ar gyfer cyfarfod CCYSAGauC gan ddisgybl o ysgol leol. Roedd y disgybl wedi rhoi'r teitl *Paths for Pilgrims* ar y ffilm.	1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome* Edward Evans began the meeting by explaining that he would be Chairing the meeting in the absence of both Phil Lord, Chair of WASACRE and Tania ap Sion, Immediate past Chair of WASACRE. Cllr Huw George, Chair of Pembrokeshire SACRE welcomed WASACRE members to Pembrokeshire. He shared a video clip showing views of Pembrokeshire from a drone, which had been created especially for the WASACRE meeting by a pupil from a local school. The pupil had called the film *Paths for Pilgrims.*
2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection* Diolchodd Edward i Huw George am y croeso a dywedodd air wrth yr aelodau am Sul y Mamau a phwysigrwydd rhannu ym mywydau pobl. Dyfynnodd Edward Evans eiriau'r bardd John Donne, 'No man is an island' a bu'r aelodau'n myfyrio ar y berthynas sydd gennym ag eraill, yn cynnwys ein perthynas â Duw ac â'n mamau.	2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection* Edward gave thanks to Huw George for the welcome and shared some words with members about Mothering Sunday and the importance of sharing in peoples' lives. Edward Evans quoted the poet John Donne, saying, 'No man is an island' and members reflected on the relationships we have with others, including the relationship we have with God and our mothers.
3. Ymddiheuriadau / *Apologies* Phil Lord, Tania ap Sion, John Mitson, Tudor Thomas, Lynda Maddock, Andrew Pearce, Chris Abbas, Sharon Perry-Phillips, Neeta Singh Baicher, Sue Cave.	3. Ymddiheuriadau / *Apologies* Phil Lord, Tania ap Sion, John Mitson, Tudor Thomas, Lynda Maddock, Andrew Pearce, Chris Abbas, Sharon Perry-Phillips, Neeta Singh Baicher, Sue Cave.
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nglyn Ebwy, 25 Tachwedd 2015 / *Minutes of meeting held in Ebbw Vale, 25 November 2015 (t 10 eitem 9 sillafu December)* Dywedodd Rheinallt Thomas fod angen rhoi'r enw Cymraeg am RE Ideas ar fersiwn Gymraeg y cofnodion, T4. Eitem 10. [Syniadau AG] Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r	4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Ebbw Vales, 25 Tachwedd 2015 / *Minutes of meeting held in Ebbw Vale, 25 November 2015 (p10 item 9 spelling of December)* Rheinallt Thomas pointed out that the Welsh name for RE Ideas needs translating on the Welsh part of the minutes, P4. Item 10. The minutes were accepted by members as a true

DRAFT

cyfarfod.	record of the meeting.
5. Materion yn codi / *Matters arising*	5. Materion yn codi / *Matters arising*
T3, eitem 5. *Arolwg Bagloriaeth Cymru*. Cadarnhaodd Libby Jones ei bod wedi anfon arolwg Bagloriaeth Cymru ac AG i'r ysgolion, fod y nifer a'i dychwelodd wedi bod yn eithaf da a bod dal amser i ysgolion anfon rhai yn ôl yn hwyr. Roedd rhai aelodau'n poeni nad oedd yr arolwg yn mynd yn bellach na'r Penaethiaid, sy'n gwneud penderfyniad i beidio â'i lenwi gan eu bod o bosibl yn amheus o'i bwrpas. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael cydlynwyr AG i lenwi'r arolwg fel y gallwn gyflwyno darlun mwy cywir i Lywodraeth Cymru a gallu cefnogi athrawon.	P3, item 5. *Welsh Baccalaureate survey*. Libby Jones confirmed that she had sent out the Welsh Baccalaureate and RE survey to schools, that the return had been quite good and that there was still time for schools to send in any late returns. Some members were concerned that the survey wasn't getting past Headteachers, who are taking the decision not to fill it in as they may feel threatened by its purpose. The importance of RE coordinators completing the survey was highlighted so that we can present a truer picture to Welsh Government and be able to support teachers.
Gweithredu: Bydd Libby'n rhoi adborth ar ddadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg yng nghyfarfod nesaf CCYSAGauC ym mis Mehefin.	**Action:** Libby will give feedback on the analysis of the survey results at the next WASACRE meeting in June.
T4, Eitem 10. *U.F.A. Syniadau AG*. Cadarnhaodd Rheinallt Thomas fod fersiwn Saesneg Syniadau AG ar gael yn llawn erbyn hyn ar y Wefan. www.religious-education-wales.org/news/archive sy'n rhan o wefan Peniarth. Mae'r deunydd cyfrwng Cymraeg i gyd ar y wefan hefyd, ond mae'r cyfeiriad yn wahanol, sef: www.addysg-grefyddol-cymru.org/newyddion/archif . Mae yna 48 o themâu i gyd ac mae'r syniadau wedi dod gan amrywiaeth o athrawon o bob cwr o Gymru. Awgrymodd Rheinallt fod dolen yn cael ei gosod o wefan CCYSAGauC i wefan Peniarth a chadarnhaodd nad oes problem hawlfraint.	P4, Item 10. *A.O.B. RE Ideas*. Rheinallt Thomas assured members that the English version of RE Ideas is now fully available on the Website. www.religious-education-wales.org/news/archive which forms part of the Peniarth website. The Welsh medium material is all on the website too, but the web address is different, it is: www.addysg-grefyddol-cymru.org/newyddion/archif . There are 48 themes in all and the ideas have come from a variety of teachers from across Wales. Rheinallt suggested a link from the WASACRE website to the Peniarth website and confirmed that they are not subject to copyright.
Gweithredu: RT i anfon fersiwn Gymraeg y cyfeiriad e-bost i LJ drwy e-bost.	**Action:** RT to email welsh version of website address to LJ.
T4, Eitem 10. *Dogfen Ganllaw Esgusodi o AG.* Mae Gill Vaisey wedi cyflwyno'r ddogfen ddrafft i PYCAG a bydd yn derfynol erbyn mis Mai 2016. Os oes gan yr aelodau unrhyw beth	P4, Item 10. *Withdrawal from RE Guidance document.* Gill Vaisey has presented the draft document at NAPfRE which will become final by May 2016. If members have anything to share

DRAFT

i'w rannu â Gill i'w ychwanegu at y ddogfen o safbwynt astudiaethau achos, dylid eu hanfon at Gill yn yr wythnos neu ddwy nesaf. Bydd y ddogfen ar gael i CYSAG wedi iddi gael ei chwblhau.	with Gill to add to this document in terms of case studies please can they send them to Gill within the next couple of weeks. The document will be made available to SACRE once it is complete.
T9, Eitem 8. *Manylebau TGAU diwygiedig ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.* Bydd CYSAG Ceredigion yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad o strwythur cyrsiau TGAU Astudiaethau Crefyddol ac i dynnu sylw at yr angen i gynnwys cyrsiau AC sydd yn berthnasol i bobl ifanc wrth ystyried swyddi, er enghraifft yn y proffesiynau gofal megis nyrsio a gofal cymunedol. Yn y drafodaeth a ddilynodd gwnaed y pwyntiau canlynol: Mae'n bwysig sicrhau fod safonau AC yn gyffelyb i safonau pynciau eraill TGAU; gallai cael un fanyleb AS yn hytrach na dwy achosi problemau i AC statudol CA4 a/neu AG dewisol, bydd PYCAG yn ysgrifennu at CBAC i ofyn am gyfarfod er mwyn trafod hyn ymhellach; pryder am ysgolion yn dwyn amser o AC ar gyfer cynlluniau eraill fel Bagloriaeth Cymru gydag apêl i athrawon roi gwybod i CYSAGau am unrhyw wasgu ar amser AC; ar hyn o bryd nid oes bwrsariaethau yng Nghymru i fyfyrwyr TAR AC ac mae llai o fyfyrwyr ôl-raddedig yn gwneud yr hyfforddiant hwn nag a oedd yn y gorffennol.	P9, Item 8. *Revised GCSE Specifications for Religious Studies.* Ceredigion SACRE will be writing to Welsh Government to request a review of the structure of Religious Studies GCSE courses and to highlight the need for the content of RS courses to be geared towards young people getting jobs, for example in the caring professions like nursing and community care. A discussion ensued and the following points were made: It is important to ensure that standards in RS have parity with other GCSE subjects; having only one RS specification rather than two could cause problems for KS4 statutory RE and/or optional RS, NAPfRE will be writing to WJEC to ask for a meeting to discuss this issue further; concern over schools taking time away from RS for other initiatives like Welsh Baccalaureate with a plea made to teachers to keep SACREs informed of any squeeze on RS time; there are currently no bursaries in Wales for RS PGCE students and that fewer post graduate students from Wales are taking up this training than in the past.
Gweithredu: LJ i roi gwybod i CCYSAGauC am y trafodaethau rhwng PYCAG a CBAC. LJ i roi bwrsariaethau TAR AC ar agenda'r cyfarfod nesaf â Llywodraeth Cymru.	**Action:** LJ to keep WASACRE informed regarding discussions between NAPfRE and WJEC. LJ to put RS PGCE bursaries on the agenda for the next meeting with Welsh Government.
T8. Eitem 7. *Cynhadledd Addoli ar y Cyd.* Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, mae CCYSAGauC wedi penderfynu peidio â threfnu cyfarfod gydag Alison Mawhinney ac academyddion eraill sydd ynghlwm â'r Gynhadledd Addoli ar y Cyd ar hyn o bryd.	P8. Item 7. *Collective Worship conference.* In consultation with Welsh Government, WASACRE has decided not to pursue a meeting with Alison Mahwinney and other academics involved in the Collective Worship Conference at this time.
Mae CYSAG Ceredigion wedi cysylltu â phob ysgol yn yr ALl i atgyfnerthu'r angen am addoli	Ceredigion SACRE has contacted all schools in the LA to reinforce the need for worship during

DRAFT

ar y cyd yn ystod amser gwasanaeth ac na ddylid defnyddio'r amser hwn i bethau eraill. Mae Addoli ar y Cyd wedi cael ei drafod gan PYCAG a phenderfynodd y grŵp chwilio am enghreifftiau o arfer da i'w rhoi ar wefan CCYSAGauC er mwyn helpu ysgolion yn hyn o beth.	assembly time and that this should not be used for other matters. Collective worship has been discussed by NAPfRE and the group were resolved to find examples of good practice in a secondary school to put on the WASACRE website in order to support school in this area.
Codwyd hefyd y mater o gynrychiolaeth i'r Dyneiddwyr ar CYSAG a dysgu Dyneiddiaeth mewn ysgolion. Nid yw dyneiddwyr yn grŵp crefyddol ac felly ni allant fod ar Bwyllgor A, ond gall cynrychiolydd Dyneiddiol fod ar CYSAG fel aelod cyfetholedig, fel sydd eisoes yn digwydd mewn rhai CYSAGau. Cyfeiriwyd at agenda *Respect* o safbwynt rhai unigolion nad ydynt yn dangos parch i Gristnogaeth, a byddai hynny'n achosi problemau. Yn y pen draw CYSAGau unigol ddylai benderfynu ac mae'n dibynnu'n fawr ar y cyfraniad y gall y cynrychiolydd unigol ei wneud i CYSAG. Cadarnhawyd hefyd fod Dyneiddiaeth ar y fanyleb TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.	Humanist representation on SACRE and the teaching of Humanism in school was also raised. Humanists are not a religious group and therefore cannot be on Committee A, but a Humanist representative can be on SACRE as a co-opted member, as already happens in some SACREs currently. The Respect Agenda was referenced with regard to certain individuals not showing respect for Christianity, which would cause problems. Ultimately it is up to each individual SACRE to decide and largely depends on the contribution the individual representative can make to SACRE. It was also confirmed that Humanism is on the new GCSE RS specification.
T10. Eitem 8. *Manylebau TGAU diwygiedig.* Cadarnhaodd Libby Jones na fyddai manyleb newydd TGAU Astudiaethau Crefyddol yn dechrau tan fis Medi 2017.	P10. Item 8. *Revised GCSE specifications.* Libby Jones confirmed the deferment of the New RE specification for GCSE RS until September 2017.
6. Cyflwyniad PYCAG/ *NAPfRE presentation*:	6. Cyflwyniad NAPfRE/ *NAPfRE presentation*:
Siân Brooks, Tiwtor TAR, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. 'Cymhwysedd Digidol'/ Siân Brooks, PGCE Tutor USWTSD *'Digital Competence'*	Siân Brooks, PTAR Tiwtor USWTSD. 'Cymhwysedd Digidol'/ Siân Brooks, PGCE Tutor USWTSD *'Digital Competence'*
Mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar wefan CCYSAGauC.	A copy of this presentation is available on the WASACRE website.
Diolchodd Bethan James, Cadeirydd PYCAG, i Siân am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol a thynnodd sylw at yr angen am ddarllen beirniadol wrth ddatblygu cymhwysedd digidol, a all ac sydd yn cael ei ddatblygu drwy AG. Roedd CYSAG Ceredigion yn pryderu y gallai	Bethan James, Chair of NAPfRE thanked Siân for an interesting and informative presentation and highlighted the need for critical reading when developing digital competence, which can be and already is being developed through RE. Ceredigion SACRE raised the concern of the risk that writing and communication skills would be

DRAFT

sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu gael eu llesteirio drwy geisio datblygu cymhwysedd digidol. Pwysleisiodd Siân fod cyfle i ddal y drafodaeth mewn AG drwy gymhwysedd digidol, sy'n aml yn mynd ar goll ar ddiwedd gwers, a bod honno'n bendant yn ymwneud â llafaredd yn hytrach nag ysgrifennu. Codwyd problem diffyg cyllid, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i alluogi sicrhau fod adnoddau digidol ar gael ym mhob ystafell ddosbarth i wneud i hyn weithio.	hampered by the development of digital competence. Siân emphasised the opportunity for capturing the debate in RE through digital competence, which is often lost at the end of the lesson, and that is very much about oracy, rather than writing. The issue of lack of funding was raised, especially in secondary schools, in order to enable digital resources to be available in all classrooms to make this work.
Gweithredu: Siân i anfon y dolenni o'r cyflwyniad i Libby.	**Action:** Siân will send all the links from the presentation to Libby.
Janet Ingram, Swyddog Addysg a Phererindod, Tŷ'r Pererin, esgobaeth Dewi Sant/ *Janet Ingram, Education and Pilgrimage officer, Tŷ'r Pererin, Diocese of St. David*	Janet Ingram, Swyddog Addysg a Phererindod, Tŷ'r Pererin, esgobaeth Dewi Sant/ *Janet Ingram, Education and Pilgrimage officer, Tŷ'r Pererin, Diocese of St. David*
Mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar wefan CCYSAGauC.	A copy of this presentation is available on the WASACRE website.
Diolchwyd i Janet Ingram am ei chyflwyniad ysbrydoledig. Dywedodd Rachel Bendall fod ar fyfyrwyr TAR Cynradd angen y math hwn o hyfforddiant. Cadarnhaodd Janet Ingram nad yw'r cyflwyniad wedi cael ei rannu eto ag Esgobaethau eraill yng Nghymru. Awgrymwyd y gallai Tŷ'r Pererin ofyn i Hwb roi adnoddau ar-lein er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac fel bod mwy o ysgolion yn elwa ar y prosiect. Pwysleisiodd Janet mai dysgu drwy brofiad yw hanfod yr adnodd hwn.	Janet Ingram was thanked for her inspiring presentation. Rachel Bendall commented that Primary PGCE students need this type of training; Janet Ingram was able to confirm that the presentation has not yet been shared with other Diocese in Wales. It was suggested that Tŷ'r Pererin could reach out to Hŵb to put resources online to enable a wider audience and more schools benefitting from the project. Janet emphasised that experiential learning is the key to this resource.
7. Diweddariadau/*Up-dates:*	7. Diweddariadau/*Up-dates:*
Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones	Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones
Darllenodd Libby'r nodiadau o'r cyfarfod a oedd yn cynnwys y canlynol: llawlyfr proffil y Cyfnod Sylfaen; diweddariad ar Adolygiad y Cwricwlwm; Adolygiad o'r ddeddfwriaeth AG bresennol; cynhadledd Addoli ar y Cyd; TGAU /	Libby read out the notes from the meeting which included the following: Foundation Phase profile handbook; Curriculum Review update; Review of current RE legislation; Collective Worship conference; RE GCSE / A' level; Welsh

DRAFT

Lefel A AG; y gofyn gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi pob un o adroddiadau CYSAG; Diweddaru'r ddogfen canllaw absenoldeb Gwyliau Crefyddol ar gyfer 2016/17.	Government requirement to publish all SACRE reports; Updating the Religious Festival absence guidance document for 2016/17.
Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau.	The following points were raised by members.
Cais Llywodraeth Cymru i CCYSAGauC ddiweddaru dyddiadau gwyliau crefyddol ar y Canllawiau ar gyfer Presenoldeb yn yr Ysgol a Gwyliau Crefyddol 2016. Cododd Vicky Thomas y cwestiwn o atebolrwydd a chytunodd yr aelodau y dylai Libby gael sgwrs â'i chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac os yw hi'n amhosibl i LlC ei wneud, yna mae CCYSAGauC yn fodlon.	Welsh Government request for WASACRE to up-date the religious festival dates on the WG School Attendance and Religious Festivals Guidance 2016. Vicky Thomas raised the issue of accountability and members agreed that Libby should have a conversation with WG colleagues and if it is impossible for WG to do it then WASACRE will.
Cytunwyd y byddai CCYSAGauC yn ysgrifennu at y gwahanol bleidiau gwleidyddol i ofyn am eu safbwynt ar Addysg Grefyddol a DACW mewn ysgolion, gofyn a fyddent yn glynu at y trefniadau deddfwriaethol presennol pe bai cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno.	It was agreed that WASACRE writes to various political parties to request their standpoint on Religious Education and DACW in schools, ask if they would adhere to the present legislative arrangements should a new curriculum be put forward.
Gweithredu: LJ i gysylltu â'r Pleidiau ac anfon yr atebion i'r CYSAGau.	**Action:** LJ will contact the Parties and send the replies to SACRES.
Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr/ *Religious Education Council for England and Wales*– Gill Vaisey	Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr/ *Religious Education Council for England and Wales*– Gill Vaisey
Nid oedd dim byd newydd neu fater brys i adrodd amdano. Mae'r cyfarfod nesaf ar 12 Mai yn Llundain ac mae Gill Vaisey'n gobeithio bod yn bresennol.	There was nothing new or urgent to report only that the next meeting is on 12 May in London. Gill Vaisey hopes to attend.
Cyfarfod y Fforwm Ffydd/ *Faith Forum meeting* – Phil Lord (cyflwynwyd gan Libby Jones)	Cyfarfod y Fforwm Ffydd/ *Faith Forum meeting* – Phil Lord (delivered by Libby Jones)
Darllenodd Libby Jones y nodiadau a wnaed gan Phil Lord yn y cyfarfod. Roedd hi'n amlwg gan Manon Jones nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â newid natur CYSAG. Mynegwyd pryder am AG yn cael ei dysgu o fewn maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a sut byddai AG yn cymryd ei lle yn y cwricwlwm	Libby Jones read out the notes made by Phil Lord at the meeting. It was apparent from Manon Jones that no decision has been made as yet to change the nature of SACRE. Concern was raised regarding RE being taught within the Humanities area of Learning and Experience and how RE would sit together in the curriculum

DRAFT

ochr yn ochr â Hanes a Daearyddiaeth, gydag AG yn cael ei chytuno arni'n lleol gan y CYSAGau.	with History and Geography, with RE being agreed locally by SACREs.
Pryderon eraill a godwyd oedd bod rhai ysgolion yn glastwreiddio cyfleoedd ein pobl ifanc gyda Bagloriaeth Cymru a rhifedd a llythrennedd. Hefyd nad yw Rhanddeiliaid (megis CCYSAGauC) yn gallu cymryd rhan yng nglo mân cynllunio'r cwricwlwm. Felly a allai CYSAGau unigol ddefnyddio'u harbenigedd i weithio gydag ysgolion arloesi ar ddatblygu'r cwriclwm Dyniaethau ac AG newydd? Dywedodd Edward Evans mai dyma oedd diben CYSAGau. Sicrhawyd yr aelodau fod hyn yn digwydd yn y cefndir drwy PYCAG sydd â chynrychiolwyr o wahanol GYSGAau. Diolchwyd i Phil am yr adroddiad ac i Huw am ei gyfraniadau.	Other concerns raised were that some schools are dumbing down the opportunities of our young people with Welsh Baccalaureate and numeracy and literacy. Also that Stakeholders (such as WASACRE) cannot get involved in the nitty gritty of curriculum planning. Therefore could individual SACREs use their expertise to work with pioneer schools on the development of the new curriculum for Humanities and RE? Edward Evans commented that this is the purpose of SACREs. Members were assured that this is happening in the background through NAPfRE which has representatives from different SACREs on it. Thanks were given to Phil for the report and Huw for his contributions.
Dywedodd Gill y dylid ymbwyllo ac atgoffodd yr aelodau am y camgymeriadau a wnaed gyda dogfen y Cyfnod Sylfaen. Pwysodd ar CCYSAGAuC i ddysgu o'r profiad hwnnw. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn siŵr sut mae AG yn eistedd o fewn y cwricwlwm cenedlaethol, efallai fod angen i ni fod yn glir ynghylch beth rydym eisiau a rhoi mwy o feddwl iddo.	Gill Vaisey offered a reflection and reminded members of mistakes made with the Foundation Phase document. Gill urged WASACRE to learn from that experience. If Welsh Government is not clear how RE sits within the national curriculum maybe we need to be clear what we want and we need to give it more thought.
Gweithredu: LJ i roi 'AG a'i lle yn y cwricwlwm newydd' yn eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.	**Action:** LJ to make 'RE and its place within the new curriculum' an agenda item for the next meeting.
Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*- Libby Jones	Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*- Libby Jones
Bydd Rhwydwaith yr Ysgolion Arloesi yn cymryd rhan flaenllaw yng nghynllunio'r cwricwlwm newydd a threfniadau asesu gyda chyngor a chefnogaeth arbenigol. Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Cwricwlwm i Gymru yn cynnig her, cefnogaeth a chyngor wrth i ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae CCYSAGauC yn rhan o'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol hwn. Ni nodwyd hyd	The Pioneer Schools Network will be at the forefront of designing the new curriculum and assessment arrangements with expert advice and support. The Curriculum for Wales Strategic Stakeholder Group will provide challenge, support and advice as we work together to develop the new curriculum. WASACRE form part of this Strategic Stakeholder Group. The Pioneer Schools focussing on Humanities have

DRAFT

yma pa Ysgolion Arloesi fydd yn canolbwyntio ar y Dyniaethau, ond wedi i hynny ddigwydd, bydd Manon Jones, Pennaeth Cynllunio a Datblygu meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn trafod gyda PL ac LJ y rhan y gallai CCYSAGauC ei chwarae yn y broses ddatblygu. Bydd rhai arbenigwyr yn gweithio gyda'r Arloeswyr i ddatblygu cwmpas a chynnwys y Maes Dysgu a Phrofi tra bydd eraill yn darparu sicrhad ansawdd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol na ddylai'r rheiny sy'n darparu sicrhad ansawdd gymryd rhan lawn yn y gwaith datblygu er mwyn sicrhau proses effeithiol.	not been identified yet, but once they have been Manon Jones, Head of Areas of Learning and Experience Design and Development for Humanities will discuss with PL and LJ the role WASACRE could play in the development process. Some experts will work with the Pioneers to develop the scope and content of the Area of Learning and Experience while others will provide quality assurance. Welsh Government is mindful that those providing quality assurance should not be fully involved in the development work to ensure an effective process.
8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2016/ *Report from the Executive Committee held on 4 February 2016* Gofynnodd VT am eglurhad ar y swyddi ar y Pwyllgor Gwaith. Cadarnhaodd LJ fod 3 swydd ar gael ynghyd â swydd yr Is Gadeirydd. Cadarnhawyd hefyd y gall aelod gael ei enwebu i'r ddau a dywedodd Edward Evans fod angen i bob pwyllgor gael ei gynrychioli.	8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2016/ *Report from the Executive Committee held on 4 February 2016* VT asked for clarification of the Executive positions. LJ confirmed that there are 3 positions available plus the position of Vice Chair. It was also confirmed that a member can be nominated for both and Edward Evans raised the need for coverage of all committees.
9. Gohebiaeth /*Correspondence* Dim na thrafodwyd yn barod yn y cyfarfod.	9. Gohebiaeth /*Correspondence* None that had not already been dealt with in the meeting.
10. U.F.A. / *A.O.B.* Siaradodd Mary Parry â'r aelodau am y problemau sy'n gysylltiedig ag *Incerts*, sef offeryn tracio asesu masnachol a ddefnyddir gan nifer o ysgolion yng Nghymru. I bob pwnc arall heblaw AG mae'r disgrifiadau lefel o fewn y rhaglen yn briodol i Gymru. Ond, ar gyfer AG, mae'n rhaid i'r athro ddewis y set addas o ddisgrifiadau lefel i'w defnyddio yn eu lleoliad nhw. Bu hyn yn ddryslyd i rai athrawon ac mae yna bryder nad yw rhai ysgolion yn defnyddio'r disgrifiadau lefel o'r Fframwaith Enghreifftiol ar	10. U.F.A. / *A.O.B.* Mary Parry spoke to members about the issues relating to Incerts which is a commercial assessment tracker used by many schools in Wales. For all other subjects apart from RE the level descriptions within the program are appropriate for Wales. However, for RE the teacher has to choose the appropriate set of level descriptions to use for their setting. This has proved confusing for some teachers and there is concern that some schools are not using the level descriptions from the Exemplar Framework for RE which has been adopted by all 22 SACREs in

DRAFT

gyfer AG, a fabwysiadwyd gan y 22 CYSAG yng Nghymru fel rhan o'u Maes Llafur Cytûn, felly'n gwneud y lefelau yn statudol. Mae PYCAG wedi gofyn i CCYSAGauC ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gymeradwyo'r datganiad canlynol *'Mae'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu deilliannau a disgrifiadau lefel Fframwaith Enghreifftiol Genedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol Llywodraeth Cymru ac felly y rhain yw'r gofynion asesu statudol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.* Cytunodd pob aelod oedd yn bresennol â hyn. **Gweithredu-** LJ i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gymeradwyo'r datganiad hwn. Yn dilyn hyn, gellid anfon llythyr i *Incerts* a Rheolwr-Gyfarwyddwyr y 4 consortiwm yng Nghymru i dynnu eu sylw at y broblem ac i gadarnhau'r datganiad. 11. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting*: Haf, *23 Mehefin 2016,* Sir Ddinbych / *yn y Summer, 23 June 2016, Denbighshire In* ***Rhyl.*** 12. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates:* Hydref, *18 Tachwedd, 2016* Sir Gaerfyrddin */Autumn, 18 November 2016, Carmarthenshire;* Gwanwyn 2017, Sir Fynwy / *Spring 2017, Monmouthshire. 17 March in Usk.*	Wales as part of their Agreed Syllabus, which therefore makes the levels statutory. NAPfRE requested that WASACRE writes to Welsh Government to ask them to endorse the following statement. *'All 22 local authorities in Wales have adopted the outcomes and level descriptions of the Welsh Government National Exemplar Framework for RE and therefore these are the statutory assessment requirements for all maintained schools in Wales'.* All members present agreed. **Action-** LJ will write to Welsh Government to request an endorsement of this statement. Following this a letter could be sent to INCERTS and the Managing Directors of the 4 consortia in Wales to alert them to the issue and to confirm the statement. 11. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting*: Haf, *23 Mehefin 2016,* Sir Ddinbych / *Summer, 23 June 2016, Denbighshire In* ***Rhyl.*** 12. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates:* Hydref, *18 Tachwedd, 2016* Sir Gaerfyrddin */Autumn, 18 November 2016, Carmarthenshire;* Gwanwyn 2017, Sir Fynwy / *Spring 2017, Monmouthshire. 17 March in Usk.*

DRAFT